# Polisi gwerthuso a methodoleg yr IOPC

Perchennog: Tîm Rheoli Cofnodion Corfforaethol

Adolygu: Blynyddol



## Diben y polisi

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â sut fydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn bodloni ei rhwymedigaeth statudol fel corff cofnodion cyhoeddus i ddethol cofnodion i'w cadw'n barhaol dan *Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958* (PRA). Gwneir y detholiadau drwy'r broses werthuso a'r fethodoleg yn y polisi hwn. Bydd cofnodion detholedig yn destun adolygiad sensitifrwydd cyn eu trosglwyddo i'r Archifau Gwladol (AG) neu le cadw cymeradwy fel y nodir yn y *Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus*.

Mae gan yr IOPC swyddogaeth statudol i oruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Diben yr IOPC yw cynnal hyder y cyhoedd ym mhlismona.

Daeth yr IOPC yn destun i'r *Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus* yn 2018 pan gafodd ei ffurfio. Mae'r *Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus* hefyd yn berthnasol i gofnodion ar unrhyw ffurf a gynhyrchir dan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC), a oedd yn weithredol o 2004; Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) o 1985; a Bwrdd Cwynion yr Heddlu (PCB) o 1977.

Cyfrifoldebau cyrff cofnodion cyhoeddus dan y *Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus*:

- Dethol cofnodion i'w cadw'n barhaol, dan arweiniad a goruchwyliaeth y Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus.
- Cadw cofnodion yn ddiogel.
- Trosglwyddo'r cofnodion a ddewiswyd i'r AG neu le cadw cymeradwy erbyn dyddiad penodol. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod angen eu cadw. Yn yr achos hwn, rhaid cael cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
- Cynnal ceisiadau ffurfiol ar gyfer cadw a chau drwy'r AG. Caiff y rhain eu hadolygu gan y Cyngor Cynghorol ar Archifau a Chofnodion Cenedlaethol.
- Cael gwared ar gofnodion na ddewiswyd hwy i'w cadw drwy eu dinistrio neu eu cyflwyno i sefydliad arall.

## Hanes yr IOPC

Ar 8 Ionawr 2018, trodd yr IPCC yn IOPC. Crëwyd yr IOPC o *Ddeddf Plismona a Throseddu 2017*. Mae gan y sefydliad ddyletswydd gyfreithiol i oruchwylio system gwynion gyfan yr heddlu a'i nod yw trawsnewid y ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn erbyn yr heddlu. Yn wahanol i'r IPCC, nid oes ganddo strwythur comisiwn. Cafodd pwerau cyfreithiol yr IOPC eu cynyddu hefyd i ddechrau ei ymchwiliadau ei hun heb atgyfeiriadau gan heddluoedd.

Cyrff blaenorol a gafodd eu disodli gan yr IOPC:

- Bwrdd Cwynion yr Heddlu (PCB), a grëwyd gan *Ddeddf yr Heddlu (Cwynion) 1976.* Sefydlwyd 1 Mehefin 1977.
- Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA), sefydlwyd 29 Ebrill 1985 dan adran 83 *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.*

- Disodlwyd y PCA gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) o 1 Ebrill 2004 (dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*).
- Roedd yr IPCC a'r PCA yn gyrff cyfreithiol ar wahân, er bod nifer sylweddol o drosglwyddiadau o asedau, staff ac ymchwiliadau parhaus. Ni etifeddodd yr IPCC unrhyw ymchwiliadau gan y PCA.

**Penderfyniadau dethol**

Mae ein swyddogaethau yr ystyrir ar gyfer cadw parhaol, yn unol â Pholisi Casglu Cofnodion yr Archifau Gwladol a'n cylch gwaith yn goruchwylio system gwynion yr heddlu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rheoli strategaeth | Dulliau gweithredu systematig i gyflawni amcanion yn unol â gwerthoedd a blaenoriaethau cyfundrefnol. |
| Rheoli cydymffurfiaeth | Sicrhau bod yr IOPC yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, rheoliadau, codau, safonau ac arferion a dderbynnir. |
| Rheoli rhanddeiliaid | Cynnal perthnasoedd gyda'r rheiny sydd â diddordeb yn yr IOPC neu ynghlwm â hi. |
| Ymchwil a datblygu | Datblygu mesurau sy'n ymwneud â gwasanaethau'r IOPC, deall perfformiad proses, a darganfod datrysiadau i broblemau o brofiad i wella ein prosesau a'n canllawiau gyda gweithgaredd systematig ac ymchwil cymhwysol. |
| Swyddogaethau rheoleiddio | Sicrhau bod gweithrediadau'r IOPC a'r gwaith monitro ymddygiad, cwynion ac ymchwiliadau yn digwydd mewn modd annibynnol a theg. Felly, yn cyflawni effaith go iawn i'r sawl sy'n cyflwyno'r gŵyn, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. |

:

Bydd y swyddogaethau hyn yn cynhyrchu cofnodion sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhoi cyfuniad cyfan o bolisïau prif gorff gwneud penderfyniadau'r IOPC (os nad ydynt wedi'u nodi ar y wefan eisoes/pan mae adroddiadau ffisegol ar gael).

- Wedi arwain at newidiadau yn neddfwriaethau cynradd ac is-ddeddfwriaethau.
- Wedi arwain at newidiadau yn strwythur/polisïau lefel uchel y sefydliad.
- Yn gysylltiedig ag ymchwiliadau a achosodd, neu sy'n debygol o achosi, dadl.
- Yn gysylltiedig ag ymchwiliadau a enillodd sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.
- Yn gysylltiedig ag ymholiadau neu gwestau cyhoeddus, cyn belled â nad ydynt yn gopïau dyblyg o gofnodion gwreiddiol sy'n bodoli yn rhywle arall/yn cael eu cadw gan sefydliad arall.
- Mae deunydd cysylltiedig (ond nid copi dyblyg) wedi'i adnabod â gwerth archifol gan archifwyr yn rhywle arall.
- Fel arall er budd y cyhoedd sy'n pwysleisio gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd yr IOPC, gan gynnwys:
    - Ymchwiliadau a newidiodd plismona cenedlaethol
    - Achosion a adnabu hyder uchel y cyhoedd yn yr heddlu
    - Achosion a adnabu gwersi sylweddol a ddysgwyd yn yr IOPC
    - Materion sy'n gysylltiedig â mesurau anghyffredin

Fel arfer, ni fydd cofnodion yn y swyddogaethau hyn yn cael eu hystyried ar gyfer cadwraeth barhaol lle:

- Mae'r IOPC yn nodi ei fod yn gopi dyblyg.
- Maent wedi'u cyhoeddi yn llawn heb gael eu golygu ac maent eisoes yn sylw'r cyhoedd (gan gynnwys ar wefan yr IOPC).
- Mae'r IOPC yn nodi nad honno yw'r brif adran ac mae'r cofnodion eisoes wedi'u cofnodi.

Gellir cael amgylchiadau lle caiff y cofnodion yn y categorïau hyn eu hystyried ar gyfer cadwraeth parhaol. Er enghraifft, achosion uchel eu parch lle nad yw'r adran yn gwasanaethu fel y brif adran ond mae ganddi gofnodion ychwanegol sydd â gwerth archifol nad yw'r brif adran yn meddu arnynt.

Swyddogaethau'r IOPC nad oes angen eu cadw'n barhaol fel arfer:

Bydd gwybodaeth lefel uchel ynghylch rheoli cyllid, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), rheoli pobl, ystadau a rheoli caffaeliad yn cael ei chyhoeddi yn adroddiadau blynyddol. Bydd hyn ar wefan yr IOPC. Ni fydd angen cadw'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn y swyddogaethau hyn yn barhaol.

**Penderfyniadau dethol y gorffennol:**

- adroddiadau blynyddol ac adroddiadau adolygu'r PCA
- adroddiadau blynyddol ac adroddiadau adolygu'r PCB
- Mae'r AG, drwy Archif Gwefannau Llywodraeth y DU, wedi cofnodi gwefannau'r IOPC ers 2006

### Gwefan IOPC

Mae deunydd gwefan yr IOPC wedi'i gofnodi ers mis Chwefror 2018. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei gofnodi dwywaith y flwyddyn, ym mis Ebrill a Hydref. Bydd yr IOPC yn rhybuddio'r AG os oes angen cofnodi yn amlach, neu os yw'r IOPC yn cynhyrchu cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol neu wefannau ychwanegol sydd angen eu cofnodi.

Yn ogystal, gellid cael rhagor o gofnodion rhannol nad ydynt yn destun yr un prosesau sicrhau ansawdd â'r cofnodion llawn dwywaith y flwyddyn.

### Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r AG hefyd yn cofnodi ffrwd Twitter yr IOPC.